

Dydd Sul 9/1/22	9:45yb Mawl y Bore	5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein
Arwain	Jamie	Siôn
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Elena	Mair
Darlleniadau	<i>Eseia 43: 1-7; Mathew 2: 1-12</i>	<i>Eseia 55: 1-11; Rhufeiniaid 6: 1-11</i>
Gweddïau	Non	Mairwen
Lluniaeth	Rheinallt a Menna	
Pregethu	Jamie	Mark

Dydd Sul 16/1/22	9:45yb Mawl y Bore	5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Pedr	Richard
Darlleniadau	<i>Eseia 62: 1-5; Hebraid 12: 14-28</i>	<i>1 Samuel 3: 1-20; Effesiaid 4: 1-16</i>
Gweddïau	Menna	Wini
Lluniaeth	Pedr a Non	
Pregethu	Mark	Mark

23/1/22 6:00yh Gwasanaeth Unedig (Eglwys San Mihangel)
6/2/22 4:30yp Te i fyfyrwyr (Fenton)

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. Cei Rees, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Liz Rees, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Becky Evans, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)
Parch. Robert Wilkinson, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)



**y Gair
y Groes
y Gymraeg**

g^{fed} o Ionawr 2022

9:45yb Mawl y Bore

Emynau: **682, 479**

5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein



Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.



Cynhelir Ysgol Sul i blant a phobl ifanc am 9:45yb.

Mae system doler anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.



Ein Nod

Yn Eglwys y Santes Fair... rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

Gweddï Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu, addewaist adeiladu dy eglwys. Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith. Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn yr ardal weinidogaeth hon. **Amen.**

www.eglwysfair.cymru



Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth



@eglwysfair

Newyddion Teulu'r
Eglwys

Amlenni

Mae amlenni'r casgliad at y flwyddyn nesaf yng nghefn yr Eglwys. Os nad oes set i chi, ac rydych chi am dderbyn set, gofynnwch. Diolch am eich haelioni tuag at waith yr Eglwys yma.

Gwasanaeth Unedig

Cynhelir gwasanaeth unedig fel rhan o'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol nos Sul 23ain o Ionawr am 6:00yh yn Eglwys San Mihangel. Y Parch. Flis Randall o Eglwys St. Paul fydd yn pregethu.

Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Gerbron yr orsedd hardd sydd fry,

Mae un sy'n eiriol drosof fi, Yr archoffeiriad mawr yw ef, Sy'n pledio drosof yn y nef. Mae f'enw ar ei ddwylo pur, A'r galon a ddiodefodd gur; Tra saif fy Mrenin yn y nef All neb fy nhroi oddi wrtho ef.

Pan demtia Satan f'enaid gwan, A'i saethau tanllyd ym mhob man, Edrychaf fry a gweld yr un A dalodd dros fy mhechod i. Am iddo farw ar y groes, Cenir ei fawl o oes i oes; Cyfiawnder Duw a gafodd iawn A thrwyddo ces faddeuant llawn.

Edrychwch ar yr Oen di-fai, Cyfiawnder perffaith, hael, di-drai; Y digyfnawid Dduw mewn cnawd, Brenin gogoniant imi'n frawd! Gobaith tragwyddol ynddo gaed, Fe'm prynodd i â'i werthfawr waed; Gorffwysaf yn ei fynwes ef – Fy Nghrist, f'achubwr, Brenin nef.

Anfon d'Ysbryd, O Dduw, arnom ni;

ar Gymru ein gwlad, dir mor sych. Bydd drugarog a deffro dy eglwys Di, O Dduw, dechrau efo fi, O Dduw, dechrau efo fi.

Tywallt d'Ysbryd, O Dduw, arnom ni; adfywia dy bobl i fyw fel Tydi er mwyn cael cynhaeaf fan hyn yn ein plith, O Dduw, dechrau efo fi, O Dduw, dechrau efo fi.

Bydd pob llygad ar agor i d'weld; bydd pob clust yn clywed dy lais; bydd pob calon ar agor i'th dderbyn Di a chael newid. O Dduw, clyw ein cais.

Bydd pob tafod yn datgan mai'r Arglwydd wyt Ti; plyga pob pen-glin i lawr o dy flaen; bydd pob bywyd yn ildio'n llwyr i Ti hyd yn oed y rhai sy'n galed fel maen.

Salm 29

Molwch, dduwiau, yn ddi-daw Enw'r Arglwydd. Plygwch iddo ef pan ddaw Mewn sancteiddrwydd. Mae ei lais uwch cenllif gref Yn taranu. Duw'r gogoniant ydyw ef Sy'n llefaru.

Mawr a nerthol lef yw hon: Dryllia'r cedrwydd. Dryllio cedrwydd Lebanon Y mae'r Arglwydd. Gwna i fynydd Lebanon Ac un Sirion Neidio a llamu ger ei fron Fel dau eidion.

Fflachia'i lais fel mellt ar daith, Ac mae'n peri I anialwch Cades faith Grynu ac ofni. Mae'r ewigod cyn eu pryd Oll yn llydnu. Yn ei deml mae'r bobl i gyd Yn mawrygu.

Eistedd y mae'r Arglwydd Dduw Uwch y dyfroedd Ar ei orsedd. Brenin yw Yn oes oesoedd. Rhodded ef i'w bobl byth mwy Nerth a mawredd! A bendithied hefyd hwy Â thangnefedd!

Mathew 2: 1-12

Ymweliad y Seryddion

¹Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem ²a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." ³A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. ⁴Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni. ⁵Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd:

⁶" 'A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.' "

⁷Yna galwodd Herod y seryddion yn ddigel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos. ⁸Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, "Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli."

⁹Wedi gwrandao ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn. ¹⁰A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben. ¹¹Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. ¹²Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.